# RADIO CEREDIGION

Cais am newid Fformat

Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 10 Mai 2011 |
| Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: | 03 Mehefin 2011 |

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 2 |
| 2 | Manylion a gwybodaeth gefndir | 3 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 6 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 8 |
| 3 | Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad | 9 |
| 4 | Cwestiwn yr ymgynghoriad | 11 |
| Fformat Presennol Radio Ceredigion | | 19 |
| 5 | Atodiad 7 | 20 |
| Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yng Ngheredigion | | 20 |

## Adran 1

# Crynodeb gweithredol

1.1 Mae Ofcom wedi derbyn cais am newid Fformat gan Radio Ceredigion Cyf (RCC) mewn perthynas â Radio Ceredigion, sy’n dal y drwydded radio masnachol FM lleol ar gyfer ardal Ceredigion gorllewin Cymru.

1.2 Dymuna RCC newid cymeriad gwasanaeth yr orsaf yn ei Fformat sydd wedi’i gyhoeddi o safbwynt darparu deunydd Cymraeg. Yn benodol, dymuna ddileu’r gofyniad y dylai darllediadau dwyieithog (sgwrsio) yr orsaf gyfateb i “tua hanner Cymraeg a hanner Saesneg”, a hefyd dymuna ostwng y gofyniad am gerddoriaeth Cymraeg (yn ystod y dydd) o 20% i 10% o gerddoriaeth.

1.3 Dim ond os gellir bodloni o leiaf un o’r pum maen prawf a nodir yn adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) y gellir cymeradwyo cais am newid Fformat. Nodir y meini prawf yn llawn yn Adran 2 yn y ddogfen hon.

1.4 Nid ydym ni o’r farn bod cais RCC yn bodloni maen prawf (a), na fyddai’r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol. O’r herwydd, mae’n rhaid i ni ymgynghori ar y cais.

1.5 Felly, rydym yn ceisio barn am y cais, gan roi ystyriaeth benodol i’r meini prawf newid Fformat a nodir yn Neddf Darlledu 1990.

## Adran 2

# Manylion a gwybodaeth gefndir

2.1 Mae Ofcom wedi derbyn cais am newid Fformat gan Radio Ceredigion Cyf (RCC) mewn perthynas â Radio Ceredigion, sy'n dal y drwydded radio masnachol FM lleol ar gyfer ardal Ceredigion gorllewin Cymru.

2.2 Lansiwyd Radio Ceredigion ym 1992, ac mae'n wasanaeth ar raddfa fach gyda Dalgylch Mesuradwy o 72,000 o oedolion (15 + oed). Daeth yr orsaf i feddiant Town & Country Broadcasting Ltd ym mis Ebrill 2010, drwy is-gwmni yn bennaf ym mherchnogaeth Radio Ceredigion Cyf, a rhoddodd Ofcom ganiatâd i'r perchnogion newydd adleoli'r orsaf o'i chanolfan flaenorol yn Aberystwyth i'w chydleoli (y tu allan i'w Dalgylch Mesuradwy) gyda gorsafoedd eraill sy'n eiddo i Town & Country yn Arberth.

2.3 Cais am newid cymeriad gwasanaeth yr orsaf yn y Fformat sydd wedi'i gyhoeddi o safbwynt darparu deunydd Cymraeg sydd gan RCC. Yn benodol, dymuna ddileu'r gofyniad y dylai darllediadau dwyieithog yr orsaf gyfateb i "tua hanner Cymraeg a hanner Saesneg", a hefyd dymuna ostwng y gofyniad am gerddoriaeth Gymraeg (yn ystod y dydd) o 20% i 10%.

Y Cymeriad Gwasanaeth presennol (fel a nodir yn y Fformat sydd wedi'i gyhoeddi gan Radio Ceredigion):

**GORSAF DDWYIEITHOG (TUA HANNER CYMRAEG A HANNER SAESNEG) LEOL SY'N CANOLBWYNTIO AR Y GYMUNED AR GYFER ARFORDIR GORLLEWIN CYMRU. DYLAI O LEIAF 20% O'R GERDDORIAETH A DDARLLEDIR YN YSTOD Y DYDD FOD YN GERDDORIAETH GYMRAEG, A DYLID DARLLEDU O LEIAF AWR O RAGLENNI CYMUNEDOL YN YR IAITH GYMRAEG BOB DIWRNOD YN YSTOD YR WYTHNOS.**

Y Cymeriad Gwasanaeth newydd a gynigir gan RCC:

**GORSAF DDWYIEITHOG LEOL SY'N CANOLBWYNTIO AR Y GYMUNED AR GYFER ARFORDIR GORLLEWIN CYMRU. DYLAI O LEIAF 10% O'R GERDDORIAETH A DDARLLEDIR YN YSTOD Y DYDD FOD YN GERDDORIAETH GYMRAEG, A DYLID DARLLEDU O LEIAF AWR O RAGLENNI CYMUNEDOL YN YR IAITH GYMRAEG BOB DIWRNOD YN YSTOD YR WYTHNOS.**

2.4 Ychwanegwyd y gofyniad yn y Cymeriad Gwasanaeth presennol ar gyfer Radio Ceredigion, i ddarlledu o leiaf 20% o gerddoriaeth Gymraeg ar y rhaglenni yn ystod y dydd - yn erbyn dymuniadau deilydd y drwydded – i Fformat Radio Ceredigion gan Ofcom ym mis Mawrth eleni, ynghyd â gofyniad i ddarlledu o leiaf awr o raglenni cymunedol yn y Gymraeg bob diwrnod yn ystod yr wythnos. Mae Adran 355 Deddf Cyfathrebu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynnal adolygiad o gynnyrch rhaglenni gorsaf pan fydd gorsaf yn newid rheolaeth. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, gall Ofcom ddiwygio gofynion Fformat y drwydded er mwyn adlewyrchu agweddau penodol yr allbwn a oedd yn cael eu darlledu dan y perchnogion blaenorol, os na fyddwn yn credu bod y Fformat presennol sydd wedi'i gyhoeddi yn cyfleu hyn yn ddigonol. Mae'r adroddiad Adolygiad 355 llawn ar Radio Ceredigion ar gael yn: http://licensing.ofcom.org.uk/binaries/radio/change-control/ceredigion-revised.pdf

2.5 Ail-hysbysebwyd trwydded radio leol Ceredigion yn llawn gan yr Awdurdod Radio yn 1999, am nad oedd deilydd gwreiddiol y drwydded yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded yn foddhaol. Yn ogystal â'r cais llwyddiannus gan Radio Ceredigion, a gyflwynwyd gan Radio Ceredigion 2000 CYF, cafwyd un ymgeisydd arall am y drwydded, sef Champion Ceredigion (cais gan The Marcher Radio Group Ltd). Yn y datganiad ailddyfarnu, nododd yr Awdurdod:

*"Mae rhaglenni Radio Ceredigion yn unigryw iawn o ran cymeriad; mae yna bolisi cerddoriaeth eang ac eclectig a chyfran llawer uwch o siarad, gyda dros ei hanner yn cael ei ddarlledu yn y Gymraeg, na'r hyn sy'n arferol mewn gorsafoedd radio lleol annibynnol confensiynol."*

Dywedodd, am yr iaith Gymraeg:

*"Roedd yr ymchwil ymhlith y gynulleidfa a gomisiynwyd gan y grŵp yn nodi bod y gwasanaeth presennol yn ymestyn yn helaeth, yn arbennig ymysg siaradwyr Cymraeg, a'i fod yn llwyddo i ddenu gwrandawyr o ystod eang o oedrannau. Efallai nad yw'n gwasanaethu'r di-Gymraeg cystal."*

2.6 Dan adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), ni fydd Ofcom ond yn cael rhoi caniatâd ar gyfer newid Fformat os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi'i fodloni:

*(a) na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b) na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bersonau sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*

*(c) y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadlu teg ac effeithiol;*

*(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg personau sy'n byw yn yr ardal neu gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n ganlyniad i'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu*

*(e) y byddai (i) y gwyriad deillio wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel a ddiffiniwyd yn adran 314 Deddf Cyfathrebu 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).*

2.7 Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom yn credu bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf statudol uchod, efallai y bydd rhesymau (yn ôl amgylchiadau penodol yr achos) pam na chaiff Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid arfaethedig. Gellir gweld y meini prawf ychwanegol y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/

2.8 Gan y gall y newid a gynigir gan RCC fod â goblygiadau sylweddol i gydbwysedd y Gymraeg a'r Saesneg a ddarlledir gan yr orsaf, ac am fod angen newid geiriad ei Gymeriad Gwasanaeth sydd wedi'i gyhoeddi, nid ydym o'r farn fod cais RCC yn bodloni maen prawf (a), na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol. Felly, yn unol ag adran 106ZA Deddf Darlledu 1990, rydym yn ymgynghori ar y cais.

2.9 Wrth ystyried a fodlonir maen prawf (b) (*na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol),* nid yw gwasanaethau DAB lleol na gwasanaethau BBC yn 'cyfrif' fel gwasanaethau radio annibynnol perthnasol. Y gwasanaethau radio annibynnol perthnasol yw'r gorsafoedd masnachol a chymunedol analog lleol sy'n gweithredu yn y rhanbarth, a restrir yn Atodiad 7.

2.10 Mae Atodiad 5 yn cynnwys y cais am newid Fformat a gyflwynwyd gan RCC, lle dadleuir bod y newid arfaethedig yn bodloni meini prawf (a) i (d) yn adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990.

2.11 Felly, rydym yn ceisio barn am y cais, gan roi ystyriaeth benodol i'r meini prawf newid Fformat a nodir yn Adran 106 (1A) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), fel y nodir uchod.

## Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

### Sut mae ymateb

A1.1 Mae Ofcom yn gofyn am roi barn a sylwadau ysgrifenedig am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon **erbyn 5pm ar 03 Mehefin 2011**.

A1.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we yn http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/(station name)/howtorespond/form, gan fod hyn o gymorth i ni brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein helpu drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), i ddangos a oes unrhyw ystyriaethau o ran cyfrinachedd neu beidio. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A1.3 Yn achos ymatebion mwy i'r ymgynghoriad – yn enwedig y rheini sydd â siartiau, tablau neu ddata eraill – dylech eu hanfon drwy e-bost at: jon.heasman@ofcom.org.uk, gan atodi'ch ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

A1.4 Fel arall, ceir postio neu ffacsio ymatebion i'r cyfeiriad isod:

Radio Ceredigion Consultation
F.A.O. Jon Heasman
Manager, Commercial Radio Licensing
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

Ffacs: 020 7981 3850

A1.5 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ychwanegol at fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod ymatebion ar ôl eu cael os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.6 Byddai o gymorth pe gallech roi atebion uniongyrchol yn eich ymateb i'r cwestiwn a ofynnir yn y ddogfen hon, yn Atodiad 4. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro'r rhesymau dros eich barn a sut y byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi.

### Rhagor o wybodaeth

A1.7 Os ydych yn dymuno trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch y dull priodol o ymateb, cysylltwch â Jon Heasman yn uniongyrchol ar 020 7783 4509.

### Cyfrinachedd

A1.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld y farn a fynegwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriadau. Oherwydd hynny, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, wrth eu cael, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid cadw'ch

ymateb yn gyfrinachol, byddwch cystal â nodi pa ran o'ch ymateb y dylid ei chadw'n gyfrinachol, neu a ddylid cadw'r cwbl ohono'n gyfrinachol, a nodi pam. Byddwch cystal â rhoi rhannau o'r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A1.9 Os bydd rhywun yn gofyn inni gadw rhan neu'r cwbl o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen inni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.10 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'i rhoi dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/disclaimer/

## Y camau nesaf

A1.11 Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad.

A1.12 Sylwch y gallwch gofrestru i gael Diweddariadau am ddim drwy'r post yn tynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.13 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau bod y dull o ymateb i ymgynghoriadau yn un mor hawdd ag sy'n bosibl. Mae rhagor o wybodaeth yn ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.14 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, galwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk . Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth geisio barn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o gynnig eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.15 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu hefyd â Vicki Nash, Cyfarwyddwr yr Alban, sy'n hyrwyddwr ymgynghori i Ofcom:

Vicki Nash
Ofcom
Sutherland House
149 St. Vincent Street
Glasgow G2 5NW

Ffôn: 0141 229 7401
Ffacs: 0141 229 7433

E-bost vicki.nash@ofcom.org.uk

## Atodiad 2

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A2.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A2.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal trafodaethau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr a syml ag sy'n bosibl gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd ag sy'n bosibl rhoi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu arweiniad byr mewn iaith syml i gyrff llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at 10 wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.6 Bydd rhywun o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn estyn allan at y nifer mwyaf o bobl a chyrff sydd â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. 'Hyrwyddwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif berson y dylid cysylltu ag ef i roi barn am y modd yr ydym yn rhedeg ein hymgynghoriadau.

A2.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld barn rhai eraill yn ystod yr ymgynghoriad. Fel arfer, byddem yn cyhoeddi'r holl ymatebion a gawsom ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi'r rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn disgrifio sut yr oedd barn y rhai a fu'n gysylltiedig wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hynny.

**Atodiad 3**

# Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A3.1 Er mwyn gweithredu'n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddio da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i ymgynghoriadau'n llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk <http://www.ofcom.org.uk>.

A3.2 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un ohonynt gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny'n briodol.

A3.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i'r unigolion a'r cyrff hynny sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen cyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A3.4 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar y we sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lawrlwytho copi electronig o'r ddalen hon mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/ <http://www.ofcom.org.uk/consult/>.

A3.5 Byddwch cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb y credwch y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb a rhowch eich rhesymau dros nodi pam na ddylid cyhoeddi'r rhan hon o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a'ch profiad personol. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â'u rhoi ar eich dalen gyflwyno'n unig, fel na fydd yn rhaid inni olygu'ch ymateb.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Ymgynghoriad Radio Ceredigion

At (cyswllt yn Ofcom): Jon Heasman

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu gorff/cyrff):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim byd | ☐ | Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ | Corff | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ | Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? | ☐ |

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch corff gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol neu'n rhoi modd i'ch adnabod)?

### DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych inni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

## Atodiad 4

# Cwestiwn yr ymgynghoriad

*C1. A ddylid caniatáu i Radio Ceredigion Cyf wneud y newidiadau y mae’n eu cynnig i Fformat Radio Ceredigion, gan roi ystyriaeth benodol i'r meini prawf statudol a nodir yn Adran 2 yn y ddogfen ymgynghori hon? (Adran 106 (1A) Deddf Darlledu 1990, fel y’i diwygiwyd, sy’n ymwneud â newid Fformat).*

## Atodiad 5

# Trwydded Radio Masnachol Analog: Ffurflen Gais am Newid Fformat

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cais:** | 27 Ebrill 2011 |
| **Enw'r Orsaf:** | Radio Ceredigion |
| **Yr ardal sydd wedi'i thrwyddedu a rhif y drwydded:** | Ceredigion<br>AL139 |
| **Deilydd y drwydded:** | Radio Ceredigion Cyf |
| **Enw cyswllt:** | Martin Mumford |

## Manylion y cais am newid(iadau) i'r Fformat

| | |
|---|---|
| **Cymeriad y Gwasanaeth**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch Fformat*** | **Cymeriad Presennol y Gwasanaeth:**<br><br>**GORSAF DDWYIEITHOG (TUA HANNER CYMRAEG A HANNER SAESNEG) LEOL SY'N CANOLBWYNTIO AR Y GYMUNED AR GYFER ARFORDIR GORLLEWIN CYMRU. DYLAI O LEIAF 20% O'R GERDDORIAETH A DDARLLEDIR YN YSTOD Y DYDD FOD YN GERDDORIAETH GYMRAEG, A DYLID DARLLEDU O LEIAF AWR O RAGLENNI CYMUNEDOL YN YR IAITH GYMRAEG BOB DIWRNOD YN YSTOD YR WYTHNOS.** |
| | **Cymeriad Arfaethedig y Gwasanaeth:**<br><br>**GORSAF DDWYIEITHOG LEOL SY'N CANOLBWYNTIO AR Y GYMUNED AR GYFER ARFORDIR GORLLEWIN CYMRU. DYLAI O LEIAF 10% O'R GERDDORIAETH A DDARLLEDIR YN YSTOD Y DYDD FOD YN GERDDORIAETH GYMRAEG, A DYLID DARLLEDU O LEIAF AWR O RAGLENNI CYMUNEDOL YN YR IAITH GYMRAEG BOB DIWRNOD YN YSTOD YR WYTHNOS.** |
| **Trefniadau rhannu rhaglenni a/neu drefniadau cydleoli**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am*** | **Y trefniadau cyfredol:** |

<table>
<tr><td>newid y rhan hon o’ch Fformat</td><td>Y trefniadau newydd arfaethedig:</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Oriau wedi’u gwneud yn lleol a/neu fwletinau newyddion lleol<br><br>Llenwch yr adran hon os ydych chi’n gofyn am newid y rhan hon o’ch Fformat</td><td>Rhwymedigaethau presennol:</td></tr>
<tr><td>Y rhwymedigaethau newydd arfaethedig:</td></tr>
</table>

Gall deilydd trwydded radio masnachol lleol analog wneud cais i Ofcom am gael newid Fformat yr orsaf. Dylid gwneud unrhyw gais gan ddilyn y drefn sydd wedi’i dangos ar y ffurflen hon, a dylai fod yn unol â’r gweithdrefnau y mae Ofcom wedi’u cyhoeddi ar gyfer newidiadau mewn Fformat (ar gael ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/formats/fc/changeregs/).

Dan adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990 (fel y’i diwygiwyd), ni fydd Ofcom ond yn cael rhoi caniatâd ar gyfer newid Fformat os yw’n fodlon bod *o leiaf* un o’r pum maen prawf statudol canlynol wedi’i fodloni:

*(a) na fyddai’r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b) na fyddai’r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bersonau sy’n byw yn yr ardal neu’r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*

*(c) y byddai’r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadlu teg ac effeithiol;*

*(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg personau sy’n byw yn yr ardal neu gymdogaeth honno am y newid a fyddai’n ganlyniad i’r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu*

*(e) y byddai (i) y gwyriad deillio wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai’r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu’n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel a ddiffiniwyd yn adran 314 Deddf Cyfathrebu 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).*

Dim ond un o’r pum maen prawf hyn y mae angen ei fodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu’r newid arfaethedig. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom yn credu bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu fwy o’r meini prawf statudol, efallai y bydd rhesymau (yn ôl amgylchiadau penodol yr achos) pam na chaiff Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid arfaethedig. Gellir gweld y meini prawf ychwanegol y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/

Dylai ymgeiswyr nodi bod adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod rhaid ymgynghori ynghylch newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf neu'r olaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid y mae Ofcom o'r farn y *byddai* neu y *byddai'n gallu* newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol, neu nad yw'n berthnasol i wreiddiau rhaglenni lleol), os ydyw i'w ystyried ymhellach dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall. [#].

Os digwydd i Ofcom gael cais am newid Fformat a'i fod yn credu *nad yw* maen prawf (a) neu (e) wedi'i fodloni, bydd yn gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ynghylch a yw'n dymuno mynd ymlaen â'r cais (ac, os ydyw, a yw'n dymuno newid ei gyflwyniad neu roi un yn ei le yng ngolwg y rheidrwydd i'w gyhoeddi).

**Byddwch cystal â nodi'r maen prawf neu'r meini prawf statudol a nodir yn adran 106 (1A) Deddf Darlledu 1990 y credwch chi a fodlonir mewn perthynas â'r cais hwn am newid Fformat, ynghyd â'r rhesymau dros hyn:**

**Perthnasedd i adran 106(a).**

*(a)* ***na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;***

Nid yw'r newid hwn yn effeithio'n sylweddol ar gymeriad y gwasanaeth. Bydd Radio Ceredigion yn parhau i gynhyrchu'r un rhaglenni ag y mae wedi bod yn ei wneud er Ebrill 2010.

**Darlledu cerddoriaeth Gymraeg**
Cadarnhaodd yr Adolygiad 355 diweddar fod Radio Ceredigion yn chwarae o leiaf 10% o gerddoriaeth Gymraeg cyn newid rheolaeth. Mae'r gwyriad a geisir yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol ac mae'n cynnal y nodwedd unigryw hon.

**Darlledu sgwrsio yn y Gymraeg**
Gyda chyflwyniadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn amlwg yn ei rhaglenni, mae gan Radio Ceredigion ethos dwyieithog clir, a hon yw'r unig orsaf yn yr ardal sy'n adlewyrchu iaith a diwylliant dwyieithog yr ardal.

Yn y 12 mis diwethaf, mae Radio Ceredigion wedi cyflwyno rhaglenni Cymraeg yn y rhaglenni oriau brig. Yn flaenorol, defnyddiwyd y Gymraeg yn ystod canol y dydd, lle mae'r gynulleidfa'n sylweddol lai. Bydd y newid hwn yn y Fformat yn sicrhau bod y polisïau rhaglenni dwyieithog hyn yn parhau, gan roi nodwedd unigryw i'r orsaf hon o gymharu â gwasanaethau masnachol (a BBC) eraill sy'n darlledu yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unig, gan ganiatáu gwell mynediad at ddarpariaeth Gymraeg ar yr orsaf i fwy o bobl leol.

**Perthnasedd i adran 106 (b), (c) a (d)…**

***(b) na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bersonau sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;***

Bydd gwrandawyr Radio Ceredigion yn parhau i glywed yr un cynnyrch. Ni chyfyngir ar yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n byw yn yr ardal a byddwn yn glynu at yr ymrwymiad i ddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r polisi cerddoriaeth yn parhau i fod yn unol â darllediadau cerddoriaeth Gymraeg hanesyddol yr orsaf.

***(c) y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadlu teg ac effeithiol;***

Mae Radio Ceredigion wedi defnyddio llawer iawn o adnoddau rheoli wrth ohebu ag Ofcom ynghylch dehongli ei fformat yn ystod y misoedd diweddar.

Gydag adnoddau'n brin, dymunwn osgoi dehongliadau goddrychol gan un ai wahanol bobl yn Ofcom neu raglennwyr Radio Ceredigion. Bydd y newid yn rhoi'r hyblygrwydd gweithredol i ni ddarparu'r gwasanaeth radio lleol gorau i'r sir. Heb y rhyddid hwn, bydd hyfywedd yr orsaf yn parhau i fod, ar y gorau, yn ymylol, ac yn gyson mewn perygl o orfod cau, fel a brofir gan ei berfformiad ariannol hanesyddol trychinebus.

***(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg personau sy'n byw yn yr ardal neu gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n ganlyniad i'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo.***

Mae ein gwrandawyr yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr mewn sgyrsiau bob dydd ac rydym yn ailadrodd y cydbwysedd hwn yn ein rhaglenni, heb orfod ei fesur.

Mae gwrandawyr yn awr yn fwy o ran o'r gwasanaeth, gydag offer fel e-bost/galwadau/negeseuon testun/Facebook yn awgrymu bod nifer sylweddol o wrandawyr lleol yn dilyn Radio Ceredigion. Mae dros 1,500 yn dilyn ein tudalen Facebook erbyn hyn, ac mae nifer ohonynt yn cyfathrebu â'r orsaf yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gennym ni bolisi o ddefnyddio Cymraeg a Saesneg ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol pan fyddwn yn cyfathrebu â'n cynulleidfa.

Bydd y newid yn y Fformat yn cadarnhau'r polisïau rhaglenni sydd wedi helpu Radio Ceredigion i wella ei sefyllfa ariannol yn y 12 mis diwethaf. Mae'r rhain wedi cael derbyniad da gan hysbysebwyr, ac rydym wedi gweld cynnydd arwyddocaol yn nifer yr hysbysebwyr sy'n defnyddio'r orsaf ers i ni fabwysiadu strategaeth iaith gymysg yn hytrach na'r ffurf fwy simplistig a mwy ymrannol o "flociau" o raglenni iaith a ddefnyddiwyd gan y cyn berchnogion.

Yn amlwg, dim ond gyda chefnogaeth busnesau lleol y gall gorsaf radio fasnachol fodoli. Ym mis Medi 2010, gofynasom i 50 o fusnesau lleol am eu barn am Radio Ceredigion. Dywedodd 76% eu bod yn gwrando mwy ar yr orsaf nag yn flaenorol, neu'r un faint. Roedd 95% yn hoffi'r gymysgedd gyffredinol o gerddoriaeth ac roedd mwyafrif clir yn ei hoffi'n fawr. Awgrymodd sylwadau ac ymatebion unigol efallai bod gormod o gerddoriaeth Gymraeg, ac nad oedd hyn yn cymell pobl i wrando a/neu hysbysebu ar yr orsaf. Er gwaethaf y safbwyntiau hyn, rydym ni'n credu bod ein hymrwymiad i gadw cerddoriaeth Gymraeg yn bwysig er mwyn adlewyrchu diwylliant yr ardal.

O ran rhaglenni Cymraeg, roedd 76% yn credu bod nifer y rhaglenni Cymraeg yn sicrhau cydbwysedd da. Roedd nifer fechan yn credu bod gormod o Gymraeg ac roedd rhai'n credu nad oes digon. Mae'r mwyafrif clir yn arwydd da o'r gefnogaeth i'n hagwedd tuag at raglenni dwyieithog, gyda'r ieithoedd ochr yn ochr.

Yn hollbwysig, o ran gweithgareddau hysbysebu, gofynasom "a ydych chi yn awr yn fwy tebygol neu'n llai tebygol o ystyried defnyddio Radio Ceredigion fel rhan o'ch gweithgaredd?" Dywedodd 81% o ymatebwyr eu bod yn fwy tebygol o hysbysebu gyda'r orsaf. Rydym yn falch o gael dweud bod y neges hon wedi'i chyfleu'n gryf, gyda chynnydd arwyddocaol yn nifer y busnesau lleol sy'n defnyddio'r orsaf (mae

union nifer y cleientiaid gweithredol misol wedi treblu).

I grynhoi, mae'r mwyafrif o fusnesau lleol sydd wedi dangos eu cefnogaeth drwy un ai hysbysebu gyda'r orsaf neu wrando ar yr orsaf, yn amlwg yn ystyried bod ein polisïau rhaglenni yn gadarnhaol. Mae hyn wedi cynyddu siawns Radio Ceredigion o sicrhau hyfywedd masnachol. (Rydym eisoes wedi cyflwyno copi o'r ymchwil hysbysebwyr hwn i Ofcom).

Yn olaf, ceir tystiolaeth o'r ystadegau iaith sydd ar gael a phoblogrwydd gwasanaethau radio lleol eraill a weithredir gennym mewn rhannau o Gymru lle mae'r iaith Gymraeg hefyd yn gryf. Dangosodd Cyfrifiad 2001 bod Ceredigion yn un o'r pedair prif ardal yng Nghymru gyda sgiliau cadarn yn yr iaith Gymraeg, yn ogystal â Sir Gaerfyrddin lle rydym ni'n gweithredu prif wasanaeth radio masnachol y Sir honno. Fodd bynnag, roedd y rheini "nad oedd ganddynt wybodaeth o'r Gymraeg o gwbl" yng Ngheredigion yn gymharol uchel, sef 39%, ac yn uwch na chanran yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn Sir Gaerfyrddin (36%). Mae Radio Sir Gaerfyrddin - lle rydym ni'n darlledu llawer iawn o raglenni Cymraeg heb fod hynny'n cael ei fesur - wedi cofnodi ei ffigurau uchaf erioed o ran cynulleidfa yn ddiweddar. Mae llwyddiant Radio Sir Gaerfyrddin a'r cynnydd yr ydym yn amlwg eisoes wedi'i wneud gyda Radio Ceredigion yn brawf y gall ein polisïau ar gyfer rhaglenni gefnogi rhaglenni Cymraeg mewn amgylchedd darlledu masnachol.

**Byddwch cystal â rhoi unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth ychwanegol o blaid y newid(iadau) arfaethedig isod. Yn benodol, efallai y dymuna'r ymgeisydd amlinellu sut y mae'n gweld y newid arfaethedig yn cyd-fynd â pholisi cais am newid Fformat sydd wedi'i gyhoeddi gan Ofcom (http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/), a chanllawiau Lleolrwydd Ofcom hefyd, sy'n cynnwys ein polisi cydleoli a rhannu rhaglenni (http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/localness/ ).**

Wrth aros am gasgliad ei Adolygiad 355 diweddar, roedd Radio Ceredigion yn gallu defnyddio dehongliad ehangach o'i Fformat, tra oedd yn cadw at ysbryd dwyieithog ac ethos y Fformat. Mae gwrandawyr a hysbysebwyr yr orsaf wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r polisi.

Fodd bynnag, ers i'r Adolygiad 355 ddod i ben, ac am nad ydym yn dymuno "torri amod" rydym wedi dychwelyd at y Fformat "i'r llythyren". Gan ei fod yn gyfarwyddol iawn, daeth problemau gweithredol difrifol i'r wyneb, sy'n codi amheuaeth am hyfywedd y gwasanaeth.

Radio Ceredigion yw un o orsafoedd masnachol lleiaf y DU. Gan mai dim ond ôl-fonitro'r rhaglenni y gellir ei wneud, mae hyn yn ychwanegu baich gwaith sylweddol i'n tîm bychan. Nid ydym yn dymuno "torri amod" ac am nad oes gennym ni ddigon o adnoddau i fonitro'r orsaf, mae'n ein gorfodi ni i wneud penderfyniadau golygyddol ar sail iaith ac nid ar sail perthnasedd neu ddiddordeb gwrandawyr.

Y mater allweddol sy'n codi yw ein bod ni nawr yn gorfod lleihau ein cynnwys llafar lleol er mwyn ceisio cael cydbwysedd rhwng faint o Gymraeg a Saesneg a siaredir ar yr orsaf.

Er enghraifft, mae bwletinau newyddion nawr yn cynnwys penawdau cymysg unwaith yr awr am ddim mwy na 30 eiliad oherwydd pryderon y byddem ni'n cael trafferth darlledu'r un faint o Gymraeg yn ystod y dydd petai'n hirach. Fformat y penawdau hyn yw 2 stori genedlaethol ac 1 stori leol. Yn flaenorol, roeddem yn darlledu diweddariadau bob awr - 2 funud o newyddion cenedlaethol gan Sky ac 1.5 i 2 funud o straeon (3 stori) lleol bob awr, 24 awr y dydd. Nid yw rhaglennwyr yn gallu cynnwys unrhyw straeon hirach a fyddai wedi cael eu cynnwys yn y newyddion yn flaenorol gan eu bod yn ymwybodol y bydd yn rhaid iddynt gael cydbwysedd rhwng hyd y darn llafar a hyd cyfatebol darn yn y Gymraeg.

Rydym hefyd wedi cael ein gorfodi i wneud i gyflwynwyr gyfyngu ar hyd eu cyfweliadau os ydynt yn Saesneg, gan fod hyn yn rhoi baich ar gael cydbwysedd gyda'r Gymraeg mewn man arall. Os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, golyga hyn nad oes gennych gyfle cyfartal i fod ar eich gorsaf radio leol chi. Mae hefyd yn gwneud i ni ffafrio'r rheini sy'n siarad Cymraeg fel eu prif iaith yn hytrach na'r rhai sydd ddim – ac nid yw nifer o wrandawyr, er eu bod yn siarad Cymraeg, mor hyderus ynghylch bod ar yr awyr yn yr iaith hon. Golyga hyn ein bod yn colli'r gallu i gynnwys gwrandawyr lleol ar eu gorsaf leol. Ni all hyn fod yn fwriad Fformat gwasanaeth radio lleol.

Enghraifft ddiweddar yw ymddangosiad Radio Ceredigion ar raglen "DIY SOS" BBC 1, pan ddarlledwyd rhan fechan o'r cyfweliad yn ystod y sioe. Roedd ein tîm rhaglenni am ailddarlledu'r cyfweliad gyda Nick Knowles yn llawn am 11.15am ond penderfynwyd na allai gan ei fod yn 5 munud o Saesneg, a byddai bron yn amhosibl cael cydbwysedd gyda'r Gymraeg heb gael rhaglen Gymraeg lawn am awr neu ddwy. Fel sy'n wir i'r mwyafrif o orsafoedd lleol bychan, mae hyn oherwydd mai cerddoriaeth yw swmp y darlledu felly mae deunydd llafar wedi'i gyfyngu beth bynnag. Felly, gorfodwyd ni i ddarlledu'r cyfweliad am 1910 er mwyn lliniaru unrhyw ofn o dorri'r ddyletswydd 50/50 yn ystod y dydd.

Newid arwyddocaol arall yw, yn flaenorol, byddem yn darlledu uchafbwyntiau sylw dros nos yr orsaf i'r rali, ond oherwydd bod nifer o'r cyfranogwyr lleol yn dewis siarad Saesneg, nid ydym yn darlledu uchafbwyntiau'r digwyddiad yn ystod y dydd bellach. Nid yn unig mae hyn yn golygu bod miloedd o wrandawyr yn colli allan ar wrando ar uchafbwyntiau'r digwyddiadau lleol gwych hyn, ond ni all y cyfranogwyr eu hunain glywed y sylw a roddir i'r digwyddiadau y maent yn cymryd rhan ynddynt!

Ni all fod yn iawn fod gorsaf radio leol yn gorfod torri darnau o sgwrsio lleol pwysig neu berthnasol, gan olygu nad yw'r Fformat presennol yn addas i'r diben.

Yn olaf, nid yw dwyieithog yn golygu, yn mynnu nac yn awgrymu "hanner a hanner", gyda'r geiriadur yn ei ddiffinio fel y gallu i "siarad dwy iaith". Dyma beth mae Radio Ceredigion yn ei wneud a bydd yn parhau i wneud hynny dan ei Fformat diwygiedig. Mae Ofcom wedi cytuno bod Fformat Radio Ceredigion wedi bod yn agored i ddehongliadau gwahanol dros y blynyddoedd ac nad yw hyn er budd y gwrandawyr, y rheolyddion na'r gweithredwyr.

Wrth ganiatáu'r gallu i gydleoli gyda Radio Sir Benfro, cydnabu Ofcom bod "Radio Ceredigion yn amlwg yn wynebu heriau ariannol sylweddol". Mae'n dal i fod. Nododd cais diwethaf yr orsaf am newid Fformat i gydleoli ei fod yn "gweithredu ar golled sylweddol... Mae cyfrifon rheoli'r chwe mis hyd at fis Medi 2009 yn dangos colledion o dros £60,000, yr un faint â'r misoedd cyfatebol yn 2008. Mae colledion blynyddol llawn yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn swm anghynaliadwy o £130,000 a mwy y flwyddyn.'

Er gwaethaf y cynnydd sylweddol a wnaed gennym ar y costau sylfaenol ac ar gynnydd mewn gwerthiannau, rydym wedi buddsoddi mewn meysydd megis ymchwil darlledu a

chynulleidfa (RAJAR), felly mae'r orsaf yn parhau'n ymylol. Mae perygl y bydd y cynnydd a wnaed gennym yn cael ei ddadwneud os bydd rhaid i ni ddychwelyd at y llythyren yn hytrach nag ysbryd y Fformat presennol. Drwy gytuno i'r newid, bydd dyfodol yr orsaf yn ddiogel.

*Nodiadau*

[#] Gall Ofcom gymeradwyo newid dan unrhyw un o feini prawf (b) i (d) heb ymgynghori, neu yn dilyn ymgynghoriad sy'n para llai na 28 diwrnod, os yw Ofcom o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu fwy, yn arwain at oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau deilydd y drwydded. Gall Ofcom hefyd dynnu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynir gan ddeilydd y drwydded at ddibenion ymgynghori.

**Fersiwn 6 – diwygiwyd Ebrill 2010**

## Atodiad 6

# Fformat Presennol Radio Ceredigion

### Enw'r Gwasanaeth

| |
|---|
| **RADIO CEREDIGION** |

| | |
|---|---|
| **Rhif trwydded** | **AL139** |
| **Ardal drwyddedig** | **Ardal Ceredigion** |
| **Poblogaeth y Dalgylch Mesuredig** | **72,088** |
| **Amledd(au)** | **96.6, 97.4, 103.3 MHz** |

### Cymeriad y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **GORSAF DDWYIEITHOG (TUA HANNER CYMRAEG A HANNER SAESNEG) LEOL SY'N CANOLBWYNTIO AR Y GYMUNED AR GYFER ARFORDIR GORLLEWIN CYMRU. DYLAI O LEIAF 20% O'R GERDDORIAETH A DDARLLEDIR YN YSTOD Y DYDD FOD YN GERDDORIAETH GYMRAEG, A DYLID DARLLEDU O LEIAF AWR O RAGLENNI CYMUNEDOL YN YR IAITH GYMRAEG BOB DIWRNOD YN YSTOD YR WYTHNOS.** | |
| **Hyd y gwasanaeth** | **24 awr** |
| **Rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol** | ***Lleoliad y stiwdio:***<br>**Mae'n rhaid cynhyrchu rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol yn yr ardaloedd sydd wedi'u trwyddedu yng Ngheredigion (AL139) neu Sir Benfro (AL272).** |
| | ***Oriau wedi'u gwneud yn lleol:***<br>**O leiaf 6 awr y dydd yn ystod y dydd yn yr wythnos (mae'n rhaid i hyn gynnwys brecwast).**<br>**O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.** |
| | ***Rhannu rhaglenni:***<br>**Dim trefniadau.** |
| **Newyddion lleol** | **Fel y bo'n briodol gyda a/neu rhwng rhaglenni. Ar adegau eraill, dylid cynnwys newyddion y DU a'r cenhedloedd a newyddion rhyngwladol.** |

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Sgwrsio | Nid yw'n cynnwys hysbysebu, hyrwyddiadau ar gyfer yr orsaf neu raglenni a chredydau i noddwyr |
| Oriau brig | Amser brecwast ac amser gyrru yn ystod yr wythnos, ac amser brecwast hwyr ar benwythnosau |
| Yn ystod y dydd | 06.00 i 19.00 yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau |

**Nodiadau**
Dylid darllen y Fformat hwn ar y cyd â Chanllawiau Lleolrwydd Ofcom sydd wedi'u cyhoeddi.
**Diwygiwyd: Mawrth 2011**

# Atodiad 7

# Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yng Ngheredigion

**Gorsafoedd radio masnachol:**

Real Radio (Gogledd a Chanolbarth Cymru)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/amfm/al329-1.htm

**Gorsafoedd radio cymunedol:**

Dim wedi'u trwyddedu yn yr ardal hon ar hyn o bryd.